Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dewi Sant
# Ffordd Rhuddlan
# Y Rhyl
# Sir Ddinbych
# LL18 2RE

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/11/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Dewi Sant ger tref Y Rhyl ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 544 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 66 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 20 dosbarth oed cymysg, a Chymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Daw tua 38% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 13% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod 23% o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu cymysg.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dewi Sant yn 2015-2016 yw £3,273. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,267 a'r lleiafswm yw £3,066. Mae Ysgol Dewi Sant yn safle 44 allan o 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws meysydd eraill y cwricwlwm
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn briodol
- llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn llwyddiannus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- canran presenoldeb disgyblion yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent
- nid yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu llawer o ddisgyblion yn ddigon cadarn
- anghyson yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion mewn pynciau eraill yng nghyfnod allweddol 2
- nid yw gwersi yng nghyfnod allweddol 2 bob tro'n cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol disgyblion yn ddigonol
- anghyson yw trefniadau cymedroli asesiadau athrawon ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir i arwain ysgol gynhwysol lle mae pob disgybl yn bwysig
- y pennaeth wedi llwyddo i ddechrau gosod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy gryfhau strwythurau, atebolrwydd a chynyddu disgwyliadau ymysg y staff
- arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn addas i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn ymwybodol o'i blaenoriaethau
- gan yr ysgol lawer o bartneriaethau cadarn sy'n cael effaith werthfawr ar ddysgu a lles disgyblion
- yr ysgol yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus
- trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd i baratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg

Fodd bynnag:

- nid yw cyfrifoldebau arweinwyr yr ysgol yn ddigon strategol i fynd i'r afael â holl flaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol
- nid yw staff na llywodraethwyr yn cyfrannu'n llawn i'r broses hunanarfanu er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella
- nid yw'r ysgol yn monitro darpariaeth na thargedau'r cynllun gwella ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn mynd i'r afael â thanberfformio
- nid yw trefniadau rheoli perfformiad yn arwain at dargedau penodol sy'n ymateb yn llawn i flaenoriaethau'r ysgol
- nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion o'r arolygiad blaenorol ym Medi 2009

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Codi safonau disgyblion mwy abl

A3 Sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A4 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig lefel briodol o her ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion cyfnod allweddol 2

A5 Cryfhau trefniadau hunanarfarnu gan sicrhau mewnbwn yr holl randdeiliaid

A6 Gwella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ac atebolrwydd ar bob lefel

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar draws yr ysgol ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion mwy abl yn datblygu'n ddigonol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn dda, o ystyried eu mannau cychwyn. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n fedrus ac yn eu defnyddio'n hyderus wrth gynnal sgwrs mewn sefyllfaoedd gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn ddiogel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion mwy abl yn cynnal trafodaethau estynedig yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 bob amser yn cynnal trafodaethau grŵp trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn adnabod seiniau yn gadarn ac yn dechrau adeiladu geiriau'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas i ddarllen yn gymharol rugl. Maent yn mynegi barn am eu hoff lyfrau ac am gymeriadau o fewn storïau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn llwyddiannus, ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testun. Mae llawer yn trafod eu hoff awduron yn hyderus ac mae disgyblion mwy abl yn darllen llyfrau heriol yn fedrus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb, gan ddefnyddio ystod addas o eirfa ac atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn dechrau defnyddio ansoddeiriau a berfau i gychwyn brawddegau yn briodol wrth ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu taflen wybodaeth syml ar gyfer ymwelwyr i Gastell Rhuddlan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawysgrifen y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn gwersi iaith. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn addas ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae sillafu ac atalnodi llawer yn gadarn. Maent yn defnyddio paragraffau'n llwyddiannus i drefnu gwaith ac yn drafftio a gwella darnau yn addas. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol mewn pynciau eraill yn ddigon cadarn, ac nid yw medrau disgyblion mwy abl ar frig yr ysgol wedi datblygu'n ddigonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer gymhwyso'u medrau i ddatrys

problemau adio, tynnu a lluosi'n gywir. Maent yn casglu data a'i chofnodi mewn ffurf graff yn gywir, er enghraifft wrth gofnodi hoff ffilmiau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Maent yn datrys problemau rhif yn fedrus ac yn dehongli data yn effeithiol er mwyn canfod gwybodaeth, er enghraifft fel rhan o arbrawf mesur curiad y galon mewn gwersi gwyddoniaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus mewn gwahanol feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhaglenni pwrpasol ar gyfer ysgrifennu storïau a gwneud lluniau, yn ogystal â chreu dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn medru defnyddio rhaglenni prosesydd geiriau i gyfathrebu gwybodaeth yn addas, er enghraifft i greu poster propaganda o'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae eu gallu i greu cyflwyniadau amlgyfrwng a defnyddio bas data a thaenlenni yn annigonol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn y lefel uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau am ddim yn gyffredinol is na'u cyfoedion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn y 50% is a'r 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd yn gosod yr ysgol yn yr 50% is a'r 25% isaf ym mhob pwnc craidd dros yr un cyfnod o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn dangos parch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae gan bron pob un ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu clybiau ar ôl oriau'r ysgol er mwyn cadw'n heini ac i ddysgu am fyw'n iach.

Mae presenoldeb yn uwch na'r cymedr o'i gymharu ag ysgolion tebyg am dair allan o'r pedair blynedd diwethaf.  Mae disgyblion yn ymateb yn dda i system wobrwyo'r ysgol am bresenoldeb uchel ac mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cydweithio'n dda o fewn y dosbarth ac yn dangos diddordeb a lefel dda o gymhelliant yn eu gwaith.  Maent yn cadw at dasgau'n briodol.  Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu dealltwriaeth dda o'u targedau ac yn cyfrannu'n effeithiol wrth gyd-gynllunio gwaith y tymor.  Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn eu defnyddio'n briodol i wella'u gwaith.  Fodd bynnag, nid yw eu medrau dysgu annibynnol wedi datblygu'n ddigonol erbyn diwedd y cyfnod.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymfalchïo yn eu dyletswyddau, yn enwedig eu cyfraniad ym mhenodiad diweddar y pennaeth presennol.  Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer casglu barnau eu cyfoedion ac maent yn ymwybodol iawn o beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella'r ysgol.  Mae'r cyngor eco yn weithgar ac yn cymryd cyfrifoldeb am weithdrefnau arbed ynni ac ailgylchu yr ysgol yn fedrus.  Er enghraifft, trwy ddefnyddio'r hysbysfwrdd a gwasanaethau boreol, maent yn codi ymwybyddiaeth disgyblion a staff am bwysigrwydd ailgylchu inc a chartonau llaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned.  Maent yn cyfrannu at gyngherddau a digwyddiadau cymunedol ac yn casglu arian at elusennau lleol.  Er enghraifft, mae disgyblion yn rhan o brosiect celf yn y gymuned ac yn ymweld â chartref i'r henoed er mwyn peintio a sgwrsio gyda'r trigolion.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymglymiad i'w cymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.  Mae athrawon yn cyd-gynllunio ac yn addasu cynlluniau gwaith yn llwyddiannus er mwyn manteisio ar gyfleoedd i astudio'r ardal leol, er enghraifft ymweliad â Chastell Rhuddlan.

Mae'r cynlluniau tymor hir yn sicrhau bod cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei gynllunio a'i blethu'n briodol i weithgareddau ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio medrau TGCh wedi ei ddatblygu i'r un graddau, a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mewn gwersi.  Nid yw cynllunio yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r elfen Gymreig yn cael ei hyrwyddo'n effeithlon.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol trwy ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.  Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd a'r Clwb Cymry Cŵl sy'n hybu eu medrau TGCh wrth ganfod gwybodaeth am enwogion o Gymru.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Mae'r cyngor eco yn hybu'r gwaith cynaliadwyedd yn dda ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth y disgyblion o'r angen i arbed ynni a dŵr. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am y byd ehangach.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn rheoli ymddygiad yn dda ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith safonol yn y dosbarthiadau'n effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn amrywio eu dulliau addysgu'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Darperir tasgau diddorol sy'n ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, nid yw addysgu'n sicrhau bod pob disgybl yn cael eu herio'n ddigonol nac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion sydd yn gyffredinol yn dilyn y meini prawf llwyddiant a chynnig sylwadau adeiladol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ni chaiff y disgyblion gyfleoedd addas bob tro i ymateb i'r sylwadau hyn. Mae disgyblion yn dechrau asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio data olrhain cynnydd disgyblion yn briodol i adnabod anghenion a darparu'n briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Fodd bynnag, anghyson yw trefniadau cymedroli asesiadau athrawon ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid oes gan athrawon dealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau lefelau cyrhaeddiad disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Mae'r ethos o ofalu ac i gefnogi disgyblion bregus yn nodwedd gref o'i darpariaeth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, drwy gysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol, er enghraifft yr heddlu a'r gwasanaethau nyrsio ysgol. Mae'r gydberthynas hon yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol i ddisgyblion a'u teuluoedd pan fo angen. Er enghraifft, mae'r nyrs ysgol yn cynnig hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â phroblemau emosiynol a meddygol disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae darpariaeth ar gyfer clybiau allgyrsiol yn eang ac yn datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am gadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn drylwyr ac yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth ychwanegol addas ar eu cyfer. Mae'r ysgol yn cydweithio â nifer o asiantaethau arbenigol er mwyn creu cynlluniau addysg perthnasol sy'n cael eu rhannu a'u hadolygu'n rheolaidd gyda rhieni. Mae'r trefniadau hyn yn arwain at ymyraethau pwrpasol er mwyn bodloni anghenion penodol disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol er mwyn cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth emosiynol ar gyfer disgyblion bregus a'u teuluoedd. Er enghraifft, cyflogir sywddog lles amser llawn er mwyn cydweithio â disgyblion sydd â chyfraddau presenoldeb isel neu broblemau emosiynol. Mae'r trefniadau hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion ac yn arwain at eu parodrwydd i ddysgu ac i gyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar, cynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal. Mae staff yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr sy'n sicrhau bod y disgyblion yn cael ystod o brofiadau buddiol tu fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol mewn gwasanaethau boreol â themâu arbennig. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn gwrtais ac i gefnogi'r gymuned leol ac elusennau yn rheolaidd.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardaloedd tu allan er mwyn darparu ardaloedd dysgu pwrpasol. Mae buddsoddiad diweddar wedi sicrhau gwelliannau pellach i ddiogelwch, gan gynnwys hwyluso trefniadau parcio a mynediad i'r ail lawr ar gyfer y disgyblion. Mae arddangosfeydd lliwgar o waith y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dathlu llwyddiant disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn ysgogi disgyblion i ymchwilio yn yr ardaloedd dysgu ac i feithrin chwilfrydedd. Fodd bynnag, prin yw adnoddau TGCh ar draws yr ysgol, o ystyried y nifer fawr o ddisgyblion. Mae hyn yn amharu ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i ddechrau gosod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy gryfhau strwythurau, atebolrwydd a chynyddu disgwyliadau ymysg y staff. Enghraifft gynnar o hynyw'r adolygiad o oriau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn cael cyflenwad llawn o amser addysgu.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sy'n nodi cyfrifoldebau'n glir. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol arweinwyr wedi'i diffinio'n ddigonol i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn llawn.

Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd i drafod darpariaeth a threfniadau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n gryf ar ddeilliannau'r disgyblion nac ar flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol. O ganlyniad, nid yw staff â chyfrifoldebau ysgol gyfan yn cyfrannu'n llawn i'r gwaith o sicrhau ansawdd a dilyniant y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; er enghraifft, mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cael sylw priodol yn ogystal â phresenoldeb disgyblion a'r Siarter Iaith.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n briodol i sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu diweddaru ac ar waith. Mae gweithgareddau fel craffu ar lyfrau yn darparu cyfleoedd defnyddiol i godi ymwybyddiaeth y llywodraethwyr o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant a chyflwyniadau buddiol ar ddata a pherfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion eraill. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddechrau herio'r ysgol yn briodol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio. Fodd bynnag, nid yw'r herio hwn wedi cael digon o effaith eto ar godi safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau ac agweddau y mae angen eu gwella'n briodol. Er hyn, mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol ar y cyfan ac nid yw bob tro'n cysylltu effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon clir. Mae trefniadau hunanarfarnu yn rhoi sylw priodol i ddadansoddi data, monitro gwersi a chraffu ar lyfrau. Maent yn ystyried llais y disgyblion yn addas ac yn gwrando ar syniadau a barn rhieni am yr ysgol. Mae arweinwyr yn cyfrannu'n briodol i weithgareddau hunanarfarnu'r ysgol, er nid yw'r holl staff yn derbyn cyfleoedd addas i gyfrannu'n llawn i'r gweithdrefnau hyn nac i fonitro cynnydd.

Mae cynllun datblygu cyfredol yr ysgol yn nodi meysydd sydd angen gwelliant yn effeithiol. Mae'r cynllun yn nodi'n gywir yr angen i datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh disgyblion yn ogystal â mireinio strwythur staffio'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau priodol ar gyfer codi safonau disgyblion ynghyd â graddfeydd amser, cyfrifoldebau monitro, costau a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiadau o gynlluniau gwella blaenorol bob tro'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar fesur yr effaith ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion o'r arolygiad blaenorol ym Medi 2009.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n arwain at wella darpariaeth a lles disgyblion.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn codi arian sylweddol i brynu adnoddau i'r ysgol. Mae ffocws y pennaeth ar gyfathrebu trwy ddulliau amlgyfrwng yn hybu cydweithrediad i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau arbennig ar gyfer rhieni sy'n rhoi cyfleoedd iddynt siarad â staff ac arbenigwyr allanol am ddulliau addysgu, clybiau allgyrsiol a chymorth sydd ar gael i deuluoedd.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau a phrosiectau yn y gymuned, fel gweithio ar brosiect datblygu gardd mewn cartref i'r henoed ac i arlunio ochr yn ochr ag arlunwyr enwog, yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau creadigol disgyblion. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

Mae swyddog teulu'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda staff, disgyblion a theuluoedd i ddarparu cefnogaeth o safon uchel.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â meithrinfeydd yr ardal leol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd i baratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ysgolion y dalgylch wrth gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod. Er hyn, nid yw'r trefniadau hyn yn gadarn ar gyfer cyd-safoni gwaith disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn manteisio ar bartneriaethau priodol gydag asiantaethau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, sefydliadau cymunedol a'r awdurdod lleol i wella lles a chyrhaeddiad y disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda gwasanaeth ymddygiad a lles yr awdurdod lleol i gefnogi disgyblion a theuluoedd sydd angen cymorth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion hyn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o athrawon i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Maent yn cael cefnogaeth dda gan gymorthyddion effeithiol.

Mae camau penodol wedi eu cymryd yn ddiweddar i ailstrwythuro staffio i sicrhau cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol i gydgynllunio ac i gofnodi cyrhaeddiad disgyblion. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad athrawon yn addas, er nid yw targedau sy'n deillio o'r broses o hyd yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae ychydig o athrawon ac arweinwyr wedi ymweld ag ysgolion eraill ac wedi cydweithio ar brosiectau arbennig. Er enghraifft, mae cynllun y dalgylch i wella ymddygiad disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safon disgyblaeth o fewn yr ysgol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn rhwydweithiau dysgu naill ai'n fewnol neu gydag ysgolion eraill.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda swyddogion cyllid y clwstwr i reoli cyllid ac i fonitro gwariant yn ofalus. Mae ganddynt drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae prinder adnoddau mewn rhai meysydd yn cyfyngu ar ddatblygiad medrau'r disgyblion, yn arbennig mewn TGCh.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant amddifadedd i ddatblygu lles a chyrhaeddiad disgyblion trwy gyflogi cymhorthyddion i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632066 - Ysgol Dewi Sant**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 532 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 78 | 70 | 67 | 64 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 90.0 | 88.1 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 78 | 70 | 67 | 64 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 92.9 | 88.1 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.5 | 24.3 | 26.9 | 32.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 78 | 70 | 67 | 64 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 92.9 | 92.5 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.4 | 14.3 | 32.8 | 23.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 78 | 70 | 67 | 64 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 97.1 | 98.5 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.3 | 55.7 | 65.7 | 71.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632066 - Ysgol Dewi Sant**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 532 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 65 | 50 | 56 | 56 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.6 | 82.0 | 89.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 50 | 56 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 86.0 | 89.3 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.2 | 16.0 | 30.4 | 19.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 50 | 56 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 82.0 | 87.5 | 91.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.6 | 12.0 | 25.0 | 17.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 50 | 56 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.2 | 88.0 | 91.1 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 18.5 | 20.0 | 35.7 | 26.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 50 | 56 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.8 | 88.0 | 89.3 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.8 | 14.0 | 30.4 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 102<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 85<br>83% | 17<br>17% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 104 | 102<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 102 | 94<br>92% | 8<br>8% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 103 | 102<br>99% | 1<br>1% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 103 | 100<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 104 | 103<br>99% | 1<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 100<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 103 | 95<br>92% | 8<br>8% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 101 | 95<br>94% | 6<br>6% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 101 | 86<br>85% | 15<br>15% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 103 | 93<br>90% | 10<br>10% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 57 | 34 | 18 | 4 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 32% | 7% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 57 | 44 | 12 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 54 | 43 | 10 | 1 | 0 | 3 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 19% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 57 | 29 | 22 | 4 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 39% | 7% | 4% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 52 | 21 | 29 | 2 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 56% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 56 | 27 | 24 | 3 | 2 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 48% | 43% | 5% | 4% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 54 | 38 | 13 | 2 | 1 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 70% | 24% | 4% | 2% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 54 | 21 | 23 | 6 | 4 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 39% | 43% | 11% | 7% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 55 | 31 | 18 | 6 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 56% | 33% | 11% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 53 | 31 | 19 | 3 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 36% | 6% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 56 | 40 | 16 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 48 | 23 | 19 | 4 | 2 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 48% | 40% | 8% | 4% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 56 | 21 | 28 | 4 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 50% | 7% | 5% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 57 | 34<br>60% | 20<br>35% | 2<br>4% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 54 | 26<br>48% | 23<br>43% | 3<br>6% | 2<br>4% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 54 | 30<br>56% | 20<br>37% | 4<br>7% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 44 | 24<br>55% | 17<br>39% | 2<br>5% | 1<br>2% | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 55 | 21<br>38% | 25<br>45% | 7<br>13% | 2<br>4% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 56 | 28<br>50% | 26<br>46% | 1<br>2% | 1<br>2% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Iona Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.